

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 6.30 NOS FAWRTH 26 GORFFENNAF 2016.

PRESENNOL:

Cynghorydd Mrs. C. L. McDermott - Cadeirydd

Cynghorwyr J. Abbott M.B.E., Alan Benson, Mrs S. Conrad-Smith, G. D. McGinn, Eric Roberts, H. B. Rowlands, D. Rhys Thomas J. P.

CYFLWYNIAD:

Mr Gerallt Roberts, Cyngor Sir Ynys Môn: Cafwyd amlinelliad byr o'r gwaith sydd wedi ei wneud ar y Pafiliwn, bu gwariant o £15,000 ar y cawodydd a'r toiledau. Eglurodd mae'r syniad oedd i'r Clwb Pêl Droed a'r Cyngor Cymdeithas weithio mewn partneriaeth i godi arian pellach drwy'r Tîm Adfywio V.V.P. Bydd angen oddeutu £25,000 i £30,000 ar gyfer ymestyn yr ystafelloedd newid a chreu ystafell i'r dyfarnwyr, creu mae parcio newydd ar yr hen gwrst tennis, uwchraddio'r lawnt fowlio ac ati. Efallai y byddai'n bosib cael toiledau cyhoeddus a chegin yno hefyd. Y gobaith oedd y byddai'r arian a addawyd eisoes gan y Cyngor Cymdeithas am drosglwyddo'r brydles yn cael ei drin fel arian cyfatebol ar gyfer y prosiect.

1. **YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Ms A. D. McCann, Stephen McGee ac E. Gwynfor Williams.

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB:**
Eitem 6 (Datblygu'r Safle Hamdden) - Cynghorwyr Geoff McGinn ac Eric Roberts

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL:**

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau fod y cofnodion yn gywir.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION:**

4.1 **Llwybrau Cyhoeddus a'r Meinciau:**

Adroddwyd: Bod gwaith wedi dechrau ar y llwybrau a'r meinciau ond roedd y llwybr oedd yn arwain o Lon St. Ffraid i lawr i'r traeth wedi gordyfu. 'Roedd y clerch yn dal i ddisgwyl ymateb gan CSYM ynglŷn ag y llwybr Henborth .

Penderfynwyd: Rhoi gwybod i'r contractwr fod y llwybr i lawr at y traeth angen sylw brys.

4.2 **Darparu biniau:**

Adroddwyd: Bod rhai o'r biniau angen eu hail-leoli a bod y biniau ailgylchu cymunedol wedi eu symud oherwydd cwynion gan drigolion lleol - nodwyd bod y rhain i fod i gael eu gwagio bob wythnos.

Penderfynwyd: Byddai Cyng. Bill Rowlands yn cadw llygaid ar hyn.

5. **GOHEBIAETH:**

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 6.30 NOS FAWRTH 26 GORFFENNAF 2016.

5.1 Treth Trafodiadau Tir

Cyflwynwyd a nodwyd: - Dogfen Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â chyfraddau uwch ar gyfer prynu Eiddo Preswyl Ychwanegol.

5.2 Nodyn Cyngor Technegol 24 drafft: Yr Amgylchedd Hanesyddol

Cyflwynwyd a nodwyd - Dogfen ymgynghori.

6. SAFLE HAMDDEN:

6.1 Adroddwyd: Nad oedd unrhyw ohebiaeth wedi dod oddi wrth y Cyngor Sir ynglŷn â throsglwyddo'r brydles.

Dywedodd Cyng. Eric Roberts bod y Clwb Pêl-droed a Swyddogion V.V.P. (CSYM) yn gweithio mewn partneriaeth i uwchraddio'r pafiliwn chreu maes parcio ac ati a byddent yn paratoi ceisiadau cynllunio a cheisiadau am arian yn fuan.

Nodwyd hefyd bod y Clwb Pêl-droed wedi ymrwmo i wneud cyfraniad ariannol i uwchraddio'r cyfleusterau.

Dywedodd Cyng. Geoff McGinn fod diddordeb lleol yn y lawnt bowlio a chyflwynodd ohebiaeth ddiweddar gyda'r Cyngor Sir ar y mater.

Penderfynwyd: Ysgrifennu at y preswylydd lleol ynghylch y lawnt fowlio, gofyn am ddiweddariad gan CSYM am y brydles ac aros am fanylion pellach ynglŷn â'r costau'r datblygiadau. Yn y cyfamser byddai Cyng. Eric Roberts yn clirio'r tir garw.

Cytunwyd hefyd mai Cyng. Eric Roberts fyddai'n arwain ar y prosiect.

7. TOILEDAU:

7.1 Cyfle posibl i weithredu'r Toileddau Cyhoeddus o 1 Ebrill 2017

Cyflwynwyd: Llythyr gan CSYM yn rhoi manylion o gostau hanesyddol toiledau Bae Trearddur a Porthdafarch am 2014/15 a 2015/16 a maylion draft o'r penawdau fydd yn cael eu defnyddio i lunio prydles 60 mlynedd ar y safleoedd. Roedd yn ofynnol i'r Cyngor Cymdeithas gadarnhau eu bod yn cytuno mewn egwyddor i drosglwyddo'r eiddo cyn 9 Medi 2016.

Roedd yn amlwg y byddai trosglwyddo cyfrifoldeb am y ddau doiled yn golygu costau mawr i'r Cyngor Cymdeithas a byddai unrhyw ymrwymiad parhaus gan CSYM yn debygol o fod yn gysylltiedig â chodi'r Dreth Cyngor.

Penderfynwyd: Disgwyl am wybodaeth am unrhyw gymhellion ariannol a allai fod ar gael cyn gwneud penderfyniad terfynol yn y cyfarfod nesaf.

8. WEFAN:

8.1 Penderfynwyd:

- i beidio â chynnwys cyswllt masnachol ar y wefan

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 6.30 NOS FAWRTH 26 GORFFENNAF 2016.

- i bostio'r Ddogfen Ymgynghori ar Treth Trafodiadau Tir ar y wefan.
- parhau i gynnwys y cysylltiadau Dewis Cymru.

9. CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG:

Cyflwynwyd a nodwyd: Dogfen ymgynghori

10. CYFRANIADAU: - Dim ceisiadau.

11. ADRODDIADAU CYNGHORWYR:

11.1 Cynghorydd Bill Rowlands:

Cyflwynodd adroddiad yn dilyn cyfarfod Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned lle trafodwyd y canlynol:

- trosglwyddo Toiledau Cyhoeddus
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Ymgynghori gyda'r cymunedau (22 o sesiynau i'w cynnal ar draws yr ynys)
- Gwefan Dewis Cymru (un llwybr i amryw asiantaethau)
- Ailgylchu - 'Roedd Ynys Môn yn debygol o gael dirwy am fethu â chyrraedd y targedau cenedlaethol (gallai hyn fod hyd at £700,000) Nodwyd mai ond 3.76% oedd yn cael ei ailgylchu ar Ynys Gybi, y bwriad oedd ymweld ag ysgolion ac addysgu plant i helpu'r achos. Dywedwyd mai gwagio biniau pob tair wythnos oedd y ffordd ymlaen gyda chasgliadau ailgylchu yn parhau yn wythnosol.
- Roedd y sefyllfa tipio anghyfreithlon wedi gwella ers cyflwyno'r App Môn.
- Grid Cenedlaethol - Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru - mae ceblau tanddaearol i'w defnyddio o dan y Fenai ond mae'r frwydr ynglŷn â rhoi ceblau ar draws yr ynys yn parhau.
- App Môn - technoleg uwch ar gyfer adrodd materion a gofyn am wasanaethau.

11.2 Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

Adroddwyd: Fod problem gyda 'Ragwort' ar y safle adeiladu newydd ac ar y Maes Parcio .

Penderfynwyd: Ysgrifennu at IOACC a gofyn iddynt gael gwared ohono.

11.3 Cynghorydd Sue Conrad-Smith

Adroddwyd: Problemau gyda pharcio anghyfreithlon ar Lon Isallt .

Penderfynwyd: i dynnu hyn at sylw'r Adran Briffyrdd .

12. CYLLID, GWEINYDDU A RHEOLI RISG:

12.1 Adroddiad Ariannol Misol:

Cyflwynwyd a nodwyd : Adroddiad am y cyfnod 1/4/2016 i 30/06/2016 ynghyd â chysoniad banc a Chyfrifon Banc.

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDUR 6.30 NOS FAWRTH 26 GORFFENAF 2016.

12.2 NALC 2016-2018 Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol
Cyflwynwyd a nodwyd - dogfen yn ymwneud â thelerau ac amodau gwasanaeth y clerc.

12.3 Cyflwyniad Swyddfa Archwilio Cymru
Cyflwynwyd a nodwyd: Gwybodaeth fanwl am y fframwaith atebolrwydd ariannol ar gyfer cynghorau lleol a newidiadau i'r Drefn Archwilio i Gynghorau Cymuned a Thref.

13. TALIADAU - Penderfynwyd: Cadarnhau a thalu'r canlynol:-

| | | | |
|------|-----------------------------|----------------|----------|
| 1410 | Holyhead Joint Burial Board | | £1967.75 |
| 1412 | H.M.R.C | Treth Incwm | £85.90 |
| 1413 | E. M. Owen | Cyflog | £343.58 |
| 1414 | A Benson | Costau Teithio | £32.40 |

14. RHEOLIADAU ARIANNOL NEWYDD:
Penderfynwyd: i drafod y rhain yn y cyfarfod nesaf .

15. PRYNU LAP TOP:
Penderfynwyd: Y clerc i ddewis lap top ac argraffydd laser am bris canolog a chyflwyno'r manylion i'r cyfarfod nesaf.

16. UNRHYW FATER BRYD ARALL:
Cytunwyd: Byddai'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd sef Cyng. Cyndy McDermott a'r Cyng. Geoff McGinn yn cael eu hawdurdodi i ymdrin ag unrhyw faterion bryd yn ystod y cyfnod at y cyfarfod ym mis Medi.

17. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO:

17.1 Cais Cynllunio 46C344H Cae Grugog, Lon St Ffraid, Bae Trearddur -
Cais i godi un annedd a mynedfa newydd - Apêl Cyf: APP / L6805 / A / 16 / 3,144,118 - **Gwrthodwyd.**

18. CEISIADAU CYNLLUNIO:

18.1 46C42E Glasfryn, Ravenspoint Road, Bae Trearddur .

Cais llawn i newid y cynllun sydd wedi ei ganiatáu yn flaenorol o dan ganiatâd cynllunio 46C42B er mwyn diwygio'r gosodiad mewnol a'r edrychiad allanol ynghyd ac addasu'r fynedfa i gerbydau ac i gerddwyr..
Penderfynwyd: Dim Gwrthwynebiad.

18.2 46C451A Graig Eithin, Lôn St Ffraid, Bae Trearddur .
Cais llawn ar gyfer dymchwel sied cwch presennol a chodi modurdy.

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A
GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 6.30 NOS FAWRTH
26 GORFFENNAF 2016.**

Penderfynwyd: Dim Gwrthwynebiad.

18.3 46C88F RSPB, Ynys Lawd /South Stack, Caergybi

Cais llawn i greu maes chwarae a phwll natur. **Penderfynwyd: Dim Gwrthwynebiad.**

19 CYFARFOD NESAF:

Penderfynwyd cyfarfod am 6.30y.h ar Nos Fawrth, 6 Medi 2016.